# Polisi preifatrwydd

Mae’r datganiad isod yn rhoi trosolwg cyffredinol o'r ffordd y byddwn yn trin y wybodaeth a roddir gennych.

## Pwy ydym ni

Y Bwrdd yw rheolydd data’r wybodaeth a roddir gennych, a bydd yn sicrhau y caiff y wybodaeth hon ei diogelu a'i defnyddio yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

## Ein manylion cyswllt

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â’r ffordd y byddwn yn defnyddio’r wybodaeth a roddir gennych at y Swyddog Diogelu Data yn: **diogelu.data@senedd.cymru** neu 0300 200 6565

## Pam rydym yn casglu'r wybodaeth hon

Defnyddir eich ymateb i’r ymgynghoriad i lywio penderfyniadau'r Bwrdd ar newidiadau arfaethedig i Benderfyniad y Bwrdd, sy'n nodi'r tâl a'r lwfansau sydd ar gael i Aelodau'r Senedd, mewn perthynas â:

- chyflogau Aelodau a deiliaid swyddi;
- siwrneiau’r Aelodau yn yr Undeb Ewropeaidd;
- y gronfa costau swyddfa a chysylltu ag etholwyr;
- cynllun pensiwn staff cymorth yr Aelodau;
- y lwfans cymorth i bleidau gwleidyddol;
- effeithiau ar gydraddoldeb; ac
- unrhyw gynigion neu awgrymiadau eraill a gyflwynir gennych fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad.

## Ein sail gyfreithiol ar gyfer casglu, cadw a defnyddio eich gwybodaeth bersonol

Mae cyfraith diogelu data yn nodi seiliau cyfreithiol amrywiol (neu 'amodau') sy'n caniatáu i ni gasglu, cadw a defnyddio eich gwybodaeth bersonol. At ddibenion prosesu'r data personol a ddarperir gennych, rydym yn dibynnu ar y seiliau cyfreithiol a ganlyn:

### Mae angen prosesu'r data fel rhan o dasg a gyflawnir er budd y cyhoedd

Y dasg yw hwyluso gwaith corff annibynnol i gyflawni ei swyddogaethau o ran pennu'r tâl a'r lwfansau sy'n daladwy i Aelodau o'r Senedd. Mae'r Bwrdd yn arfer y swyddogaethau a nodir yn adrannau 20, 22, 24, 53 a 54 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 er mwyn gwneud penderfyniadau am y tâl a'r lwfansau a delir i Aelodau o'r Senedd. Wrth arfer y swyddogaethau hynny, rhaid i'r Bwrdd weithredu mewn modd agored a thryloyw. Rhaid i'r Bwrdd ymgynghori â'r rheini y mae ei benderfyniadau yn debygol o effeithio arnynt, gan gynnwys Aelodau o'r Senedd, y staff a gyflogir gan yr Aelodau (neu gan grwpiau o Aelodau), yr undebau llafur perthnasol ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn y Bwrdd.

### Data personol categori arbennig

Efallai y byddwn yn prosesu data personol categori arbennig fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Diffinnir data personol categori arbennig fel rhai sy'n cynnwys data sy'n datgelu cefndir unigolion o ran hil, ethnigrwydd, credoau crefyddol neu athronyddol, cyfeiriadedd rhywiol a data am iechyd. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn prosesu unrhyw ddata categori arbennig perthnasol amdanoch chi ac unrhyw un arall y byddwch yn sôn amdanynt yn eich ymateb.

Caiff data categori arbennig eu prosesu ar y sail ei fod yn angenrheidiol er budd sylweddol i'r cyhoedd (fel y darperir yn Erthygl 9(2) (g) o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, a ddarllenir ar y cyd â pharagraff 6 o Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018).

## Beth y byddwn yn ei wneud â'r wybodaeth hon

Bydd aelodau'r Bwrdd ac ysgrifenyddiaeth y Bwrdd (cyflogeion Comisiwn y Senedd) sy'n rhan o'r ymgynghoriad yn gweld yr holl sylwadau a gyflwynir.

**Efallai y caiff rhywfaint o wybodaeth ei rhannu â gweithwyr Comisiwn y Senedd er mwyn cael barn a chyngor wrth ystyried unrhyw newidiadau i'r tâl a'r lwfansau sydd ar gael o dan y Penderfyniad a sut y dylid gweinyddu unrhyw newidiadau.**

## Ble y byddwn yn storio eich gwybodaeth

Caiff eich gwybodaeth ei chadw ar rwydwaith TGCh Comisiwn y Senedd (sy'n cynnwys gwasanaethau cwmwl trydydd parti a ddarperir gan Microsoft). Mae unrhyw drosglwyddiad data gan Microsoft y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn dod o dan gymalau cytundebol lle y mae Microsoft yn sicrhau bod data personol yn cael eu trin yn unol â deddfwriaeth Ewropeaidd. Mae manylion am sut y bydd Microsoft yn defnyddio'ch data ar gael ar ei wefan: https://privacy.microsoft.com/cy-gb/privacystatement

Gellir cadw gwybodaeth hefyd yn system rheoli busnes y Senedd a ddarperir gan Mod.Gov.

## Cyhoeddi sylwadau

Mae'n bosibl y bydd y Bwrdd yn cyhoeddi'r sylwadau a gyflwynir gennych i'r ymgynghoriad hwn, yn rhannol neu'n llawn, ar wefan y Bwrdd. Mae hefyd yn bosibl y bydd yn cyhoeddi darnau o'r sylwadau a gyflwynir gennych mewn dogfennau a gaiff eu llunio ar ôl yr ymgynghoriad a'u cyhoeddi ar wefan y Bwrdd. Bydd sylwadau a gaiff eu cyflwyno a'u cyhoeddi ar wefan y Bwrdd yn parhau i fod ar gael i'r cyhoedd.

Rhowch wybod i ni pe bai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'r sylwadau a gyflwynir gennych neu ddarnau ohonynt.

Os bydd y Bwrdd yn cyhoeddi sylwadau a gyflwynwyd gennych ar ran sefydliad neu grŵp gwleidyddol yn y Senedd, bydd yn cynnwys eich enw chi, teitl eich swydd, ac enw'r sefydliad neu'r grŵp gwleidyddol gyda'ch sylwadau. Os bydd yn cyhoeddi sylwadau a roddwyd gennych chi'n bersonol, dim ond os ydych wedi gofyn i ni gyhoeddi eich enw y byddwn yn gwneud hynny.

## Am faint o amser y byddwn yn cadw eich gwybodaeth

Cedwir ymatebion nes bydd y Bwrdd wedi cwblhau'r ymgynghoriad ac am gyfnod o ddim mwy na chwe mis ar ôl i'r ymgynghoriad gau. Bydd unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi i'r parth cyhoeddus yn aros yno. Ar ôl y cyfnod o chwe mis ar ôl cau'r ymgynghoriad, bydd y Bwrdd yn cadw ymatebion dienw. Bydd yr ymatebion dienw hynny yn cael eu cadw drwy gydol

y Chweched Senedd, sef y cyfnod y mae'r Penderfyniad mewn grym.  Cedwir yr ymatebion dienw i helpu i lywio adolygiadau blynyddol y Bwrdd o'r Penderfyniad.

## Cysylltu â chi

Mae'n bosib y bydd y Bwrdd yn defnyddio'r manylion cyswllt a roddir gennych i gysylltu â chi mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn a'r sylwadau a gyflwynwyd gennych, ac unrhyw waith ychwanegol a wneir fel rhan o'r adolygiad hwn.  Rhowch wybod i ni wrth i chi ymateb i'r ymgynghoriad a hoffech i ni gadw'ch manylion cyswllt a chysylltu â chi at y dibenion hyn.  Os byddwch yn nodi eich bod yn fodlon i ni barhau i gysylltu â chi, cewch roi gwybod i ni ar unrhyw adeg nad ydych am i ni wneud hynny mwyach.

## Ceisiadau am wybodaeth a wneir i Gomisiwn y Senedd

Os gwneir cais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth, mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r wybodaeth a gawsom gennych yn llawn neu'n rhannol.  Gall hyn gynnwys gwybodaeth a gafodd ei dileu o'r blaen gan y Bwrdd Taliadau at ddibenion cyhoeddi. Dim ond os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith y bydd y Bwrdd yn gwneud hynny.

## Eich hawliau

Fel gwrthrych data, mae gennych nifer o hawliau. Mae'r hawliau sy'n gymwys yn dibynnu ar y seiliau cyfreithiol yr ydym yn dibynnu arnynt i ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol. Ni fydd yr hawliau hynny'n gymwys ym mhob achos, a bydd y Comisiwn yn cadarnhau a yw hynny'n wir ai peidio pan fyddwch chi'n gwneud cais.

Mae'r hawliau'n cynnwys yr hawl i ofyn am fynediad at eich gwybodaeth bersonol eich hun, a elwir weithiau yn 'gais gwrthrych am wybodaeth'.

Hefyd, mae gennych hawl i wneud cais gennym ni:

- bod unrhyw wybodaeth anghywir sydd gennym amdanoch yn cael ei chywiro (nodwch fod gofyn i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am unrhyw newidiadau o ran eich gwybodaeth bersonol);
- bod gwybodaeth amdanoch chi yn cael ei dileu (mewn rhai amgylchiadau);
- ein bod yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion penodol neu mewn rhai amgylchiadau; a

- bod eich gwybodaeth yn cael ei darparu i chi neu drydydd parti mewn fformat cludadwy (eto, mewn rhai amgylchiadau).

Os hoffech arfer unrhyw rai o'r hawliau sydd gennych o dan ddeddfwriaeth diogelu data, gofyn cwestiwn neu wneud cwyn ynghylch sut y defnyddir eich gwybodaeth; cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data.

## Sut i wneud cwyn

Gallwch gwyno i'r ysgrifenyddiaeth gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod os byddwch chi'n anfodlon ar sut rydym wedi defnyddio'ch data.

Yn dilyn cwyn, os byddwch yn parhau i fod yn anfodlon ar ein hymateb, gallwch hefyd gwyno iSwyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Cyfeiriad yr ICO yw:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF